



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion (wedi'i  
ddiweddaru)

## Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl

Gorffennaf 2020  
(Diweddarwyd Medi 2020)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.



## Crynodeb o'r Ymatebion

### Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno byddai un lwfans yn well na phedwar lwfans ar wahân?

Ydw	59	55.14%
Nac ydw	17	15.89%
Ddim yn Siŵr	29	27.10%
Gadawyd yn wag	2	1.87%
Cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd	107	

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai cael un lwfans yn well na phedwar lwfans ar wahân.

Y thema amlycaf o'r ymatebion i gwestiwn 1 oedd bod ymatebwyr yn croesawu'r hyblygrwydd a symleiddio y byddai un lwfans yn ei gynnig ond yn mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd o gynnwys y lwfans teithio. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai'r lwfans teithio barhau ar wahân, gyda nifer yn awgrymu ymhellach y dylid darparu lwfans 'eithriadol' ychwanegol, ar wahân ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd â namau prin o ran achosion ond uchel o ran costau.

#### **Roedd y pwyntiau cadarnhaol yn cynnwys:**

- Newid cadarnhaol i fyfyrwyr ag anghenion mwy cymhleth;
- Croesawu cydweddu lwfansau israddedig ac ôl-raddedig;
- Bydd yn symlach i'w weinyddu a'i egluro i fyfyrwyr;
- Haws i fyfyrwyr a'u rhieni ei ddeall a llai cymhleth i Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC)
- Lleihau'r amser a dreulir yn gwneud cais am arian ychwanegol o'r lwfans cyffredinol gan y gall hyn gymryd amser oherwydd y broses ariannu ac mae'n arwain at oedi o ran cymorth barhaus.
- Dylai myfyrwyr allu defnyddio'r lwfans cyfan yn y meysydd ble mae angen cymorth;
- Bydd lwfansau symlach yn fwy cost-effeithiol. Byddai'r system yn haws i fyfyrwyr ei defnyddio;
- Byddai un lwfans yn golygu y byddai pob agwedd ar gymorth yn fwy hygyrch.

#### **Roedd y pwyntiau negyddol yn cynnwys:**

- Mae cael lwfansau ar wahân yn helpu i reoli disgwyliadau cwsmeriaid/myfyrwyr ac yn achub y blaen ar geisiadau afresymol;
- Mae cael categorïau yn darparu strwythur ystyrlon ar gyfer yr asesiad ac yn amlygu'r mathau o gymorth sydd ar gael;
- Mae cael gwared ar gategorïau yn creu risg i annibyniaeth y myfyriwr. Byddai'n hawdd darparu'r holl gymorth ar ffurf Cymorth Anfeddygol, a gallai hynny greu diwylliant o ddibyniaeth sy'n amharu ar ba mor barod yw myfyrwyr i fyw y tu allan i'r Darparwr Addysg Uwch;
- Rhaid cynyddu uchafswm y lwfans cyfarpar, neu ei ddileu yn gyfan gwbl, er mwyn galluogi pobl anabl i brynu'r offer mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.
- O ystyried y problemau gyda Chredyd Cynhwysol yn cyflwyno system un taliad/lwfans i bawb, ni fyddai cyfuno'n cynnig manteision i fyfyrwyr;
- Byddai'n lleihau'r swm sydd ar gael ar gyfer cymorth nad yw'n feddygol, dylent barhau i fod ar wahân er mwyn annog unigolrwydd;
- Gallai beri anfantais i fyfyrwyr gan fod y lwfans cyfarpar yn daliad untro ac felly byddai'n rhaid ei dynnu allan o flwyddyn gyntaf y cymorth;

- Gallai olygu y byddai dyraniad yr arian yn anodd ei gyfiawnhau, byddai myfyrwyr yn hoffi gwario mwy o un lwfans na'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd drwy dynnu o lwfansau eraill, pe baent yn gweld swm cyfanswm gallent ddisgwyl cael dyraniad sy'n gyfwerth â'r swm hwnnw;
- Mae'r system gyfredol yn gweithio'n dda i fyfyrwyr, ond nid yw'r system yr orau o ran buddiannau'r myfyriwr.

### **Mynegwyd y pwyntiau canlynol gan y rhai a oedd yn ansicr:**

- Bydd angen i lwfans sengl ystyried y costau pontio uwch a all ddigwydd yn ystod camau cynnar astudio;
- Nid oes ots os mai un neu bedwar lwfans sydd ar gael, yr hyn sy'n bwysig yw bod digon o arian ar gael i ddiwallu anghenion astudiaeth anabledd y myfyriwr;
- Dim ond cyfran fechan o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo sy'n cael ei hawlio gan lawer o fyfyrwyr, ni ddylid pennu terfyn uchaf, yn hytrach cynnig cyfle agored i wneud cais yn seiliedig ar angen.
- Mae'n dibynnu a fyddai'r lwfans unigol arfaethedig yn cael ei gyfyngu a gallai hyn o bosib roi myfyrwyr sydd ag anghenion cymorth lluosog neu gymhleth o dan anfantais;
- Efallai y byddai'n well gwahaniaethu rhwng y gwahanol anableddau, yn enwedig mewn perthynas â nam synhwyraidd;
- Rhaid i gyrff ariannu ddarparu canllawiau clir ar sut i wario'r arian;
- Dylid ystyried y lwfans teithio fel lwfans arall ar wahân.

### **Pwyntiau eraill a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:**

- Ystyried yr elfen TAW gan fod rhai Cynorthwywyr Anfeddygol wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac eraill heb gofrestru, gan gynyddu swm y lwfans a ddefnyddir;
- Adolygu'r lwfans o 24c y filltir;
- Ystyried effaith tocynnau teithio am ddim cyfredol a diddymu costau didyniad costau teithio myfyrwyr, gall yr arfer o ddiwynnu'r costau cymudo arferol adael myfyriwr anabl ar ei golled;
- Mae angen gofalu rhag cyfuno costau Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl a dyletswydd y Darparwr Addysg Uwch o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Byddai cyllid wedi'i dargedu'n ofalus er mwyn diwallu anghenion y myfyriwr yn hytrach na mewn pedwar band bras yn helpu aseswyr ac asiantau i ddiwallu eu hanghenion yn well;
- Byddai un lwfans yn well pe bai'n darparu'r un lefel o help;
- Dim ond os nad yw'n arwain at doriadau yn y swm a ddyfernir, byddai hyblygrwydd i'r myfyriwr a'r asesydd i benderfynu beth sydd ei angen yn well, heb orfod poeni am ba gategori y byddai'n perthyn iddo a bod arian digonol ar gael. Rhaid iddo beidio bod yn un ateb i bawb.

Hefyd, mae UCM Cymru yn awgrymu y dylai unrhyw system newydd fod yn destun adolygiad cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru o fewn tair blynedd i'w lansio.

### **Cwestiwn 2 – A fyddai modd dyfarnu 'pecyn cymorth' Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn hytrach na bod angen i bob myfyriwr anabl fynd trwy asesiad o anghenion astudio?**

Byddai	34	31.78%
Na fyddai	47	43.93%
Ddim yn Siŵr	23	21.50%
Gadawyd yn wag	3	2.80%

Yn gyffredinol, ychydig o wahaniaeth oedd rhwng yr ymatebwyr hynny a deimlai na ddylid dyfarnu 'pecyn cymorth' Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl a'r rhai a oedd yn teimlo y gallai fod yn fuddiol.

### Roedd y pwyntiau cadarnhaol yn cynnwys:

- Cydnabod rhesymeg pecyn cymorth fel y gellir cael gafael ar gymorth yn gyflymach gyda'r un canlyniad ac, yn y pen draw, sicrhau gwell gwerth am arian;
- Mae safonau proffesiynol, arbenigedd a gwybodaeth aseswyr Ymgynghori Anabledd Addysgu yn golygu ei fod yn hawdd iddynt wneud yr argymhellion sy'n angenrheidiol o ran cymorth;
- Gallai pecyn safonol o gymorth weithio i grwpiau penodol o fyfyrwyr, ond byddai angen mwy o ystyriaeth i hyn nag sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad hwn ar hyn o bryd;
- Mewn rhai amgylchiadau (h.y. Anhawster Dysgu Penodol) gallai fod yn briodol i becynnau safonol o gymorth gael eu rhag-gyflyru a dylai hyn ddiwallu anghenion mwyafrif y myfyrwyr o fewn y categori hwnnw;
- Mewn gwirionedd, mae hyn yn digwydd beth bynnag, mae hyn yn hynod fuddiol i fyfyrwyr oherwydd yr amserlen fyrrach;
- Byddai creu pecyn yn cyflymu'r broses i lawer o fyfyrwyr ac yn ddelfrydol byddai'r pecyn yn hyblyg pe bai angen diwygio'r cyfarpar;
- O'i gyfleu yn glir i'r myfyriwr, gallai ddileu rhai o'r camau yn y broses Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl;
- Cyn belled â'i bod yn hollol glir i fyfyrwyr nad oes raid iddynt dderbyn hyn, gallai gyflymu'r broses i fyfyrwyr sydd â chyflyrau lle mae'r argymhellion yn tueddu i fod yn eithaf safonol. Byddai angen gwneud hyn mewn ffordd sensitif;
- O ran pa anableddau y gellid ystyried bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gan becyn cymorth addas y cytunwyd arno, a beth yn union fyddai'r becynnau cymorth hynny, dylid defnyddio data o adroddiadau blaenorol i benderfynu ar hyn;
- Gallai helpu i symleiddio'r broses.
- Mewn egwyddor, mae hwn yn syniad da. Mae'r system gyfredol yn gwastraffu symiau mawr ar orfodi myfyrwyr sydd ag anableddau cyffredin fel dyslecsia i fynychu asesiadau anghenion, pan ddylai cynghorydd anabledd allu adnabod pa gymorth sydd ei angen;
- Mae asesiadau anghenion yn angenrheidiol ar gyfer cyflyrau mwy cymhleth – bydd unrhyw ymchwil sydd wedi'i gynnal yn dangos argymhellion unfrydol ar gyfer myfyrwyr dyslecsic, er enghraifft;
- Mae costau cyfredol asesiadau anghenion yn llawer rhy uchel ac yn amrywio ledled y wlad, fel y mae ansawdd yr adroddiadau hefyd. Prin y mae aseswyr yn cysylltu â phrifysgolion i holi am gymorth ar y safle neu wybodaeth am y cwrs, maent yn aml yn argymhell cymorth diangen;
- Gall asesiadau roi'r argraff bod lefel o farnu er bod staff yn ymatal rhag barnu ac yn fwy na bodlon helpu;
- Os yw eu hanghenion yn hawdd ymdrin â nhw, gallai fod o fudd i fyfyrwyr gael cyfarpar yn syth. Fodd bynnag, os ydynt yn gymhleth, bydd angen asesiad.

### Roedd y pwyntiau negyddol yn cynnwys:

- Mae hyn yn tansellio cynsail a manteision craidd cysyniad Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl;

- Mae rhagdybio ynghylch anabledau yn fodel meddygol ac yn pwysu'n drwm ar dybio – mae'r system bresennol yn gofyn am ymagwedd model meddygol tuag at gymhwysedd ac mae'r asesiad o anghenion yn caniatáu ymagwedd model cymdeithasol;
- Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl fyfyrwyr ddatgelu eu hanabledd i'r brifysgol, sy'n rhywbeth nad yw llawer yn dymuno'i wneud, gall fod yn anghyfreithlon i awgrymu eu bod yn gwneud hynny dim ond er mwyn cael cymorth Lwfans i Fyfywrwr Anabl;
- Mae capasiti ymgynghorwyr anabledd oddi mewn i Ddarparwyr Addysg Uwch yn gyfyngedig iawn, ni fydd ganddynt amser i wneud y gwaith ychwanegol hwn;
- Nid oes digon o swyddogion anabledd a llesiant Darparwyr Addysg Uwch, ac nid ydynt yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ddod yn agos at berfformiad presennol canolfannau asesu;
- Bydd ychwanegu llwybrau lluosog at Lwfansau i Fyfywrwr Anabl yn ddryslyd ac yn arwain at haenau lluosog o gymorth;
- Ni fyddai'r system hon yn bosibl ar gyfer cyrsiau Addysg Uwch a gyflwynir mewn colegau addysg bellach;
- Ni fyddai ymgynghorydd anabledd Darparwr Addysg Uwch yn gallu cefnogi myfyriwr sydd heb gofrestru, bydd hyn yn atal myfywrwr rhag cael gafael ar Lwfans i Fyfywrwr Anabl cyn derbyn cynnig diamod a sicrhau eu hoffer cyn dechrau yn y Brifysgol; Bydd cael gwared ar ddadansoddiad proffesiynol yr asesiad yn golygu y bydd cymorth personol wedi'i deilwra yn cael ei danseilio;
- Byddai myfywrwr sydd angen anogaeth i ymgysylltu â chymorth yn fwy tebygol o ddewis pecyn a hepgor asesiad llawn o'u hanghenion;
- Ni fydd llawer o fyfyrwyr yn teimlo'n hyderus i wrthod pecyn cymorth a gofyn am asesiad o anghenion;
- Mae'n bwysig bod y broses asesu yn un barhaus, wrth i'r myfyriwr ddarganfod beth sy'n gweithio iddyn nhw a beth sydd ddim, yn ogystal â sut mae eu hanabledd yn effeithio arny'n nhw'n newid;
- Gallai cynnig pecyn cymorth fod yn niweidiol iawn i fyfyrwyr, gan awgrymu bod pobl eraill yn gwybod mwy am eu hanghenion cymorth nag y maent hwy eu hunain;
- Perygl o ddirywiad i'r profiad o fod yn fyfyrwr o'i gymharu â'r system bresennol;
- Pryder ynghylch gallu Cyllid Myfywrwr Cymru i wir ragweld pryd y mae angen eitemau ai peidio, sut maent yn cael eu defnyddio, y nifer a'r mathau;
- Bydd yn arwain at fyfyrwyr yn derbyn cymorth annigonol a/neu anaddas;
- Ddim yn addas ar gyfer person awtistig gan na fydd graddau'r effaith ar unigolyn yn glir heb ddealltwriaeth fanwl o'r unigolyn, a allai fod yn cuddio ei anabledd;
- Un pryder fyddai cynnwys cymorth anfeddygol o fewn unrhyw becyn y cytunwyd arno ymlaen llaw;
- Mae dileu'r cyfweiliad asesu o'r broses Lwfans i Fyfywrwr Anabl yn dileu'r argymhellion 'gwerth ychwanegol' heb gostau ychwanegol y gall aseswyr eu gwneud;
- Er mwyn i brifysgolion ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol, byddai angen sicrhau bod adnoddau staff sylweddol ar gael;
- Bydd cynnydd yn llwyth gwaith aseswyr anabledd yn creu mwy o oedi i fyfyrwyr presennol ac ymgeiswyr fel ei gilydd;
- Hyd yn oed i anabledau fel dyslecsia, sydd â nodweddion tebyg a phecynnau meddalwedd sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer anawsterau fel sillafu, bydd pob myfyriwr yn wahanol a bydd ganddo ei farn ei hun ar y cymorth sydd ei angen arno. Mae pryder na fyddai myfywrwr yn derbyn cymorth digonol ac na fyddent yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r feddalwedd neu'r cyfarpar argymelledig pe na bai asesiad o'r anghenion;

- Mewn perthynas ag ymarfer a niwroamrywiaeth sy'n canolbwyntio ar y person, mae rhagdybio bod angen i bob dysgwr, er enghraifft pob myfyriwr sydd â dyslecsia, gael yr union argymhellion cymorth ag eraill yn amhroffesiynol ac yn gallu bod yn anffafriol i'r unigolyn. Mae gan fwyaf y dysgwyr sy'n gwneud cais am y Lwfans i Fyfywrwr Anabl anawsterau ar y cyd ac felly byddai angen ystyried argymhellion cymorth penodol ac unigol er mwyn cael gwared â rhwystrau i dderbyn addysg;
- Mae pawb yn wahanol ac mae anghenion cymorth astudio pob person yn wahanol. Gall asesiad gwybodus olygu gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant myfyriwr yn ei astudiaethau academaidd;
- Mae llawer o fyfyrwr yn hollol anymwybodol o'u hanghenion cymorth. Yn ogystal, nid ydynt yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt drwy'r Lwfans i Fyfywrwr Anabl hyd nes eu bod yn derbyn yr asesiad anghenion. Felly, os cynigir 'pecyn' yn unig gallent fod yn methu cael y cymorth sydd ei angen arnynt ond ni fyddent yn sylweddoli hynny o gwbl;
- Er bod yr ymgynghoriad yn awgrymu y gallai myfywrwr ddewis asesiad anghenion yn ddiweddarach yn y cwrs, mewn nifer o achosion, sut y byddai'r myfyriwr yn gwybod ei fod angen cymorth ychwanegol oni bai ei fod yn cael cyfarfod gydag asesydd anghenion arbenigol;
- Mae llawer o fyfyrwr yn dweud wrthym eu bod yn teimlo rhyddhad ar ôl asesiad am eu bod yn cael trafod y peth gyda rhywun (yn aml nid ydynt erioed wedi cael y cyfle cyn hynny);
- Mae Asesiadau Anghenion yn hanfodol gan eu bod yn arbenigol iawn ac yn helpu i nodi anghenion unigol;
- Byddai cyflwyno pecyn cymorth generig yn hytrach nag asesiad anghenion, sy'n asesiad arbenigol a phersonol, yn rhoi myfywrwr o dan anfantais. Dim ond anghenion myfyriwr 'nodweddiadol' gydag anabledd penodol fyddai pecyn generig yn gallu eu diwallu, felly ni fyddai'n bodloni anghenion myfywrwr sydd ag anghenion annodweddiadol;
- Mae'r awgrym y gall myfywrwr ofyn am asesiad anghenion llawn yn cymryd yn ganiataol y byddent yn gallu gwneud hynny. Yn fy achos i, rwy'n gwybod y byddai fy mhroblemau cyfathrebu a diffyg hunan-barch wedi fy atal rhag gwneud unrhyw beth mwy na derbyn pecyn safonol o gymorth yn hytrach na gofyn am asesiad anghenion, waeth a oeddwn i'n teimlo mai dyna'r hyn oedd ei angen arnaf ai peidio;
- Rwy'n meddwl ei bod yn hanfodol bod rhywun sydd wedi cymhwyso'n llawn yn gallu asesu unigolyn er mwyn ystyried pob agwedd ar ei anghenion a sicrhau bod cymorth llawn ar gael. O brofiad personol, roedd gallu cael asesiad o fy anghenion cyn dechrau ar y cwrs yn help mawr iawn. Teimlaf y gallai peidio â chael asesiad o anghenion olygu methu cael cymorth o bosib a allai fod yn benodol i'r person hwnnw. Dydw i ddim yn teimlo y byddai pecyn yn well na chymorth a benderfynwyd arno ar ôl asesiad mwy dwys;
- Gwnaeth fy asesiad anghenion i mi deimlo'n hapusach gan iddo roi gwybod i mi pa help oedd ar gael a hyd yn oed roi cyfle i mi fwrw golwg ar gyfarpar er mwyn gweld beth fyddai fwyaf addas ar gyfer fy anghenion;
- Nid yw'r gost o £600 yn ymddangos yn eithafol;
- Gallai'r rhai sydd â chymorth ar hyn o bryd a syniad clir o'u hanghenion cymorth gael asesiad anghenion syml ac effeithlon. Byddai hyn yn dal i olygu asesiadau wedi'u teilwra a chymorth heb broses ddiangen a hir. Gallai'r rhai sy'n gyfan gwbl newydd i'r syniad o fod ag anabledd neu sy'n darganfod anabledd hollol newydd yn ystod yr asesiad cychwynnol gael apwyntiadau asesiad mwy manwl/estynedig;
- Gallai'r amser aros i dderbyn cymorth gael ei ddatrys drwy gyflwyno'n raddol – rhoi'r cymorth sy'n diwallu anghenion hysbys neu'r cymorth y gellir ei ddarparu'n hawdd yn syth. A chyflwyno'r gweddill cyn gynted â phosib;

- Ni fyddwn wedi derbyn y cyfarpar oedd yn ddefnyddiol i mi [heb asesiad], dangosodd yr asesydd i mi sut roedd pob dyfais yn gweithio, gofynnodd lawer o gwestiynau a dangosodd sut byddai pob un yn addas i'm hanghenion. Roedd hyn yn werthfawr gan na fyddwn i wedi gwybod beth oedd yn ddefnyddiol heb fedru neilltuo'r amser hwnnw.

### **Mynegwyd y pwyntiau canlynol gan y rhai a oedd yn ansicr:**

- Pwy fyddai'n gyfrifol am grynhoi a gwirio bod y pecynnau yn addas i'r diben;
- Pryder y gallai'r pecyn cymorth arfaethedig, os na chaiff ei weithredu'n ofalus, atgyfnerthu'r stereoteipiau sy'n gysylltiedig ag anabledau penodol ac atgyfnerthu golwg homogenaidd ar labeli diagnostig yn hytrach na gweld myfyrwyr fel unigolion;
- Gall myfyrwyr sy'n dysgu o bell fod angen pecyn gwahanol o gymorth i fyfyrwyr ar gampws;
- Drwy dderbyn pecyn o gymorth, mae'n bosibl na chaiff myfyriwr elwa'n llawn o archwilio'r ystod o opsiynau technoleg gynorthwyol a'r mathau sy'n cynnig swyddogaethau tebyg ynghlwm wrth wahanol feddalwedd. Gallai hyn arwain at ddiffyg ymgysylltu, gan roi mwy o straen ar wasanaethau cymorth a rhoi myfyrwyr dan anfantais;
- Mae'n rhaid nodi bod asesiadau o anghenion yn darparu manteision ychwanegol ynghyd â'r argymhellion cymorth terfynol, mae'n bosibl mai dyma'r unig adeg y caiff myfyriwr gyfle i drafod ei anghenion a'r cymorth y gallai elwa arno gyda gweithiwr proffesiynol profiadol, am gyfnod estynedig o amser;
- O'i weithredu, byddai hyn yn effeithio ar lwyth gwaith staff Sefydliadau Addysg Uwch ac yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol ac uwchsgilio;
- Pwy sy'n datrys unrhyw broblemau i fyfyrwyr sydd wedi derbyn argymhelliad o becyn cymorth;
- Pryder bod unrhyw broses sgrinio yn ei hanfod yn asesiad rhannol;
- Mae asesiadau o anghenion astudio ar gyfer Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn annibynnol i'r hyn sydd ar gael trwy gyllid sefydliadol ar gyfer addasiadau rhesymol;
- Bydd angen egluro'r pecyn mewn modd amserol er mwyn i'r myfyriwr allu'i ystyried;
- Byddai angen system ddilynol i sicrhau bod yr eitemau yn y pecyn yn effeithiol, heb fod yn ddiangen a bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu;
- Gan fod costau Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn cael eu trosglwyddo i'r Darparwyr Addysg Uwch, byddai'n rhaid datganoli cyllidebau i'r brifysgol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu cynllunio'n strategol i ateb y galw;
- Byddai'r system yn parhau i fod angen rhyw fath o asesiad er mwyn darparu tystiolaeth ysgrifenedig ac efallai y dylai'r rhain gael eu categorio yn dibynnu ar anabled y myfyriwr ac y dylai'r categori reoli hyd a lled eu pecyn cymorth;
- Pryder y gallai darparu cymorth (yn enwedig technoleg gynorthwyol) heb help ac arweiniad asesydd anghenion i egluro a dangos y swyddogaethau a'r manteision arwain at lai ym manteisio ar y cymorth a mwy o bwysau am wasanaethau anabled y Darparwr Addysg Uwch;
- Pe bai cyflyrau gwahanol yn derbyn pecynnau gwahanol efallai y byddai'n anoddach sicrhau eu bod yn gymwys iddynt, rhybuddio yn erbyn gorfodi pawb i orfod rhoi prawf meddygol o bob cyflwr sydd ganddynt

### **Pwyntiau eraill a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:**

- Croesawu'r bwriad i leihau'r cyfnod o amser y mae'n rhaid i fyfyrwyr aros am asesiadau, ond ddim yn credu bod hon yn ffordd briodol o fynd i'r afael â'r broblem, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhesymau dros yr oedi a cheisio unioni hynny trwy ddulliau amgen. Cefnogwyd hyn gan UCM Cymru, a oedd yn gwrthwynebu dyfarnu pecynnau cymorth generig heb asesiad o anghenion astudio priodol. Fodd



bynag, roeddent yn croesawu'r bwriad i leihau'r amseroedd aros ar gyfer myfyrwyr, ond yn credu bod sawl mesur y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i symleiddio'r broses heb leihau nifer yr asesiadau sy'n cael eu cynnal.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn derbyn y gall fod elfennau cyffredin yn yr argymhellion a wneir ar gyfer myfyrwyr, fodd bynnag, nodwyd bod hyn oherwydd prinder adnoddau ym maes technoleg gynorthwyol ac amharodrwydd y system Lwfansau i Fyfirwyr Anabl i dderbyn argymhelliad ar gyfer adnoddau anghyfarwydd. Mae aseswyr yn glynu wrth y rheolau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael rhywfaint o gymorth yn hytrach na dim cymorth o gwbl.
- Nododd ymatebwyr fod adroddiadau asesu wedi mynd yn ddiangen o gymhleth a beichus ac o bosibl yn cyfeirio ffocws oddi ar y cyfweiliad asesu, a ddylai fod wrth wraidd y broses, byddai adroddiad asesu byrrach a symlach yn lleihau'r oedi sy'n deillio o gwblhau'r adroddiad hirfaith presennol.
- Mae prosesau sicrhau ansawdd effeithiol yn hanfodol os yw Llywodraeth Cymru yn gallu bod yn hyderus bod gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch offer arbenigol a thechnoleg gynorthwyol yn cael eu cymhwyso'n gyson ledled y sector;
- Ystyried defnyddio datganiad AAA os oes gan y myfyriwr un;
- Caniatáu i fyfirwyr gael y grant neu broses sgrinio rhad ac am ddim. Yna, byddai pecyn yn seiliedig ar anghenion yn gwneud synnwyr – gallai hyn fod yn seiliedig ar bwyntiau, ond hynny ar ôl asesiad llawn o anghenion. Mae pawb yn wahanol. Dylai hyn fod yn ddi-dâl. Dylai addysg fod am ddim heb sôn am yr asesiad i benderfynu ar eich anghenion mewn addysg;
- Dros yr 20 mlynedd diwethaf, rydym eisoes wedi gweld gostyngiad dramatig yn y dewisiadau sydd ar gael i aseswyr o ran rhoi cymorth i fyfirwyr [gyda thechnoleg gynorthwyol]. Byddai'n anghyfrifol dewis dim ond un o bob maes [cymorth] a disgwyl i fyfyriwr ddibynnu ar yr ateb hwnnw;
- Byddai o fudd pe bai ffordd haws i fyfirwyr gael gafael ar eu gwaith papur. Mae'r awgrym o borth ar-lein yn syniad synhwyrol er mwyn helpu i ddatrys y mater hwn. Hefyd, nid yw CMC yn fodlon anfon gwaith papur myfyrwyr yn uniongyrchol i ganolfannau asesu; pe bai modd datrys hyn ac y gallai canolfannau asesu gael gafael ar waith papur drwy CMC, credaf y byddai'r amser sy'n rhaid ei ganiatáu'n gostwng yn sylweddol;
- Mae hon yn broblem drawsffiniol gan nad yw Lloegr yn dilyn y model Cymreig arfaethedig. Dylem geisio sicrhau cysondeb a'r un chwarae teg o ran cymorth i fyfirwyr anabl;
- Mae pob myfyriwr yn wahanol a bydd angen patrwm gwahanol o gymorth (er bod peth cymorth yn eithaf safonol, er enghraifft ar gyfer dyslecsia). Mae'n bwysig bod Cynghorydd Anabledd yn gwneud asesiad yn seiliedig ar y cymorth sydd ar gael yn y Brifysgol a bod y myfyriwr yn gallu cael y Lwfans i Fyfirwyr Anabl yn ychwanegol i hyn;
- Un peth y dylai'r newidiadau newydd ei gynnwys yw gofyniad i brifysgolion symud tuag at amgylchedd mwy cynhwysol (mae hyn eisoes yn wir i lawer) a bod angen iddynt ddangos sut maent yn cyflawni hyn. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cyhoeddi 'addasiadau prif ffrwd' a chyflwyno proses cipio darlithoedd/addysgu cynhwysol.

### Cwestiwn 3 – A ddylai darparwr Addysg Uwch y myfyriwr fod yn gyfrifol am drefnu cymorth a gaiff ei ariannu gan Lwfansau i Fyfirwyr Anabl?

Dylai	32	29.91%
Na ddylai	40	37.38%
Ddim yn Siŵr	32	29.91%

Gadawyd yn wag	3	2.80%
Cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd	107	

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn teimlo na ddylai Darparwr Addysg Uwch y myfyriwr fod yn gyfrifol am drefnu cymorth sy'n cael ei ariannu gan y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Fodd bynnag, ychydig o wahaniaeth oedd rhwng yr ymatebwyr hynny a oedd yn teimlo na ddylent fod yn gyfrifol a'r rhai a oedd yn ansicr neu'n teimlo y dylai'r Darparwr Addysg Uwch fod yn gyfrifol. Doedd dim gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp olaf.

#### **Roedd y pwyntiau cadarnhaol yn cynnwys:**

- Byddai cymorth wedi'i gydlynu a'i ddarparu gan y sefydliad Addysg Uwch yn cynnig mwy o fanteision i'r dysgwyr, gan gynnwys hygyrchedd, cysondeb a dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Gall Darparwr Addysg Uwch deilwra cymorth yn haws i bob myfyriwr a ffitio'r amserlen hyfforddi o amgylch yr amser;
- Mae meddu ar ddealltwriaeth well o'r amgylchedd a'r heriau ynghlwm wrth y gwaith y mae myfyrrwyr anabl yn debygol o'u hwynebu pan fyddant yn y brifysgol yn caniatáu i ganolfan asesu'r brifysgol gymhwyso model cymdeithasol o anabledd i'r asesiad;
- Mae'n well sicrhau bod cymorth yn cael ei gydlynu a'i ddarparu gan y Darparwr Addysg Uwch, gan gydnabod bod rhai myfyrrwyr aeddfed yn hoffi cael gafael ar eu cymorth eu hunain;
- Mae ansawdd y cymorth a'r ymgysylltiad yn well gyda chymorth mewnol (Sefydliad Addysg Uwch);
- Mae myfyrrwyr sy'n meithrin perthynas ag Ymgynghorwyr Gwasanaethau Anabledd yn fwy tebygol o gael gwell profiad o fod yn fyfyrwr;
- Mae gan y Darparwr Addysg Uwch fwy o gyfrifoldeb dros sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gweithredu ac o ganlyniad yn croesawu cael mwy o ymreolaeth yn y maes hwn, yn enwedig o ran trefnu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth;
- Byddai Darparwyr Addysg Uwch yn trefnu eu safonau gwasanaeth eu hunain i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, er y dylid cael cysondeb ledled y sector gyda fframwaith clir o safonau yn seiliedig ar anghenion myfyrrwyr;
- Mae darparwyr allanol yn gwneud hyn yn bennaf er budd masnachol, byddai'n llawer gwell i drefnu'r Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yn fewnol er mwyn teilwra cymorth sy'n gweddu i drefniadaeth ac ethos y Darparwr Addysg Uwch yn ogystal â'r myfyriwr. Gellir defnyddio unrhyw 'elw' yn fewnol er budd y myfyriwr;
- Fel arfer, mae myfyrrwyr sy'n gymwys i wneud cais am y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn cael trafferthion gyda threfnu, cynllunio, rheoli amser. Felly, maent yn cael budd o gymorth ac ymyrraeth gan y Sefydliad Addysg Uwch/Adran Cymorth Dysgu er mwyn hwyluso'r broses o wneud cais am y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl;
- Mae canolfan asesu sydd wedi'i lleoli o fewn darpariaeth y Darparwr Addysg Uwch ei hun yn sicrhau bod yr aseswyr yn gyfarwydd â'r ddarpariaeth leol o gymorth Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, ac yn eu galluogi i sicrhau nad ydynt yn codi disgwyliadau drwy wneud argymhellion sydd yn amhosibl yn y brifysgol benodol honno.

#### **Roedd y pwyntiau negyddol yn cynnwys:**

- Mae UCM Cymru yn pryderu bod hyn yn peryglu monopoleiddio'r sector ac yn lleihau'r dewis sydd ar gael i fyfyrwyr;
- Mae UCM Cymru yn gwrthwynebu'n llwyr fod sicrwydd ansawdd yn nwylo'r darparwr addysg uwch. Ni fyddai rhoi cyfrifoldeb i'r Darparwyr Addysg Uwch dros fonitro a rheoli ansawdd y gwasanaethau y maent yn gysylltiedig â nhw'n darparu'r lefel o oruchwyliaeth annibynnol angenrheidiol;

- Mae'n bosibl na fydd gan Ddarparwyr Addysg Uwch neu Ddarparwyr Addysg Bellach yr arbenigedd mewnol i gynnal a sicrhau ansawdd asesiadau o anghenion astudio;
- Pryder y gall y Darparwr Addysg Uwch wneud argymhellion sy'n fuddiol yn ariannol i'r sefydliad yn hytrach na'r hyn sy'n briodol i'r myfyriwr;
- Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y gallai Darparwyr Addysg Uwch sy'n gosod eu safonau gwasanaeth eu hunain greu loteri cod post lle bydd myfyrwyr yn dewis cwrs yn dibynnu ar ansawdd y cymorth anabledd. Dylid cael un drefn o safonau wedi'u cynhyrchu ar y cyd gan bobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo, a bod hwnnw'n cael ei gymhwyso a'i fonitro ledled Cymru;
- Roedd nifer o ymatebwyr yn rhannu'r farn y byddai hyn yn cael effaith ar hawl y myfyriwr i beidio â datgelu ei anabledd i'w Darparwr Addysg Uwch;
- Mynegwyd pryder y byddai ymgeiswyr dysgu o bell yn cael eu gorfodi i ddefnyddio gwasanaethau asesu Lwfans i Fyfirwyr Anabl gan eu Darparwr Addysg Uwch, ac y gallai teithio i ganolfan wedi'i dynodi ymlaen llaw beri rhwystrau sylweddol i lawer o fyfirwyr anabl;
- Er bod gan Ddarparwyr Addysg Uwch ddyletswydd gofal, nid yw hyn yn cynnwys bod yn rhan o sut y caiff lwfansau personol eu gweinyddu neu eu defnyddio gan y myfyriwr;
- Mae llawer o fanteision i'r arfer presennol o ddefnyddio canolfannau cofrestredig, gall myfyrwyr ddewis canolfan ger eu cartref neu ddewis asesydd sy'n deall eu cyflwr;
- Mae myfyrwyr yn aml yn trosglwyddo i Ddarparwyr Addysg Uwch eraill, felly byddai'n fwy hwylus pe bai rheolaeth y gyllideb a threfniant y cymorth yn aros yn nwylo'r asesydd;
- Pryder y gallai lleoli rheolaeth dros y gyllideb o fewn y Darparwr Addysg Uwch greu perthynas lletchwith rhwng y myfyriwr a'u Darparwr Addysg Uwch yn fwy cyffredinol;
- Ni ddylid colli'r manteision o ymdrin â'r TG yn annibynnol gan asesydd o ddewis y myfyriwr ei hun, mae'r lefel hon o reolaeth yn grymuso'r myfyriwr anabl ac yn gydnaws â'r model cymdeithasol o anabledd;
- Ystyried model lle mae mwy o gydweithio rhwng canolfannau cyswllt prifysgolion yn cael ei annog;
- Gall rhywfaint o gymorth i fyfirwyr helpu gyda'r pontio, ac mae angen i'r cymorth fod yn ei le erbyn yr adeg pan fyddan nhw'n dechrau;
- Bydd gadael y dewis o Ddarparwr Addysg Uwch tan y funud olaf yn arwain at dagfa a fydd yn golygu oedi wrth roi addasiadau ar waith;
- Mewn rhai achosion – fel gyda darparwyr dysgu o bell – byddai hyn yn anodd. Dan amgylchiadau o'r fath, byddai myfyrwyr angen y cymorth yn eu hardal leol ac mae disgwyl i ddarparwyr fod â chytundebau ar waith ledled y wlad yn dipyn o ofyniad;
- Mae Darparwyr Addysg Uwch yn debygol o gyfyngu'r argymhellion i ychydig o ddarnau o feddalwedd gynorthwyol/cyfarpar y maent yn ymwybodol ohono ac y mae ganddynt drwydded ar ei gyfer;
- Dylid gofyn i ganolfannau asesu fynd ar ôl yr argymhellion a wnaed ac a gymeradwywyd gan y corff cyllido er mwyn helpu myfyrwyr i gael profiad da a phontio'n annibynnol i mewn i'w pecyn cymorth;
- Mae darparwyr arbenigol sy'n llai o faint mewn sefyllfa wych i ddiwallu anghenion myfyrwyr anabl. Gallant fod yn fwy hyblyg na Darparwyr Addysg Uwch sydd â chadwyni rheoli hir;
- Un gwasanaeth arall y gall darparwr allanol ei gyflenwi yw parhad cymorth. Mae rhai myfyrwyr sy'n bryderus iawn, oherwydd y cyflwr sydd ganddynt, ac yn ei gweld yn anodd iawn trosglwyddo o un sefydliad i'r llall. Os darperir eu cymorth yn allanol, gall hyn ddigwydd heb unrhyw rwystr a gall fod yn fuddiol iawn i'r myfyriwr;
- Mae gwrthdaro buddiannau yn bodoli yn y model arfaethedig a bydd yn anodd i Ddarparwyr Addysg Uwch ei reoli – nhw fydd yn gyfrifol am drefnu asesiadau

diagnostig, gan argymell cymorth o ganlyniad i'r diagnosis, a darparu'r cymorth sydd wedi'i argymell.

### **Mynegwyd y pwyntiau canlynol gan y rhai a oedd yn ansicr:**

- Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder mai ychydig o fanylion a roddwyd am sut y byddai'r trefniadau'n gweithio i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio gyda Darparwyr Addysg Uwch yn Lloegr;
- Cymhlethdodau o ran gweinyddu'r cwrs a chyfrifoldeb am gymorth, er enghraifft cyrsiau breiniol a gyflwynir mewn sefydliadau Addysg Bellach;
- Cymysgedd o wasanaethau o fewn a thu allan i gwmpas y Darparwr Addysg Uwch sy'n sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl i'r myfyriwr;
- Dylai'r Darparwyr Addysg Uwch arwain o ran sicrhau bod myfywr yn gwneud cais am Lwfans i Fyfywr Anabl a'u cyfeirio at asesiadau;
- Mae rhai sefyllfaoedd lle na all Darparwyr Addysg Uwch ddarparu cymorth eu hunain neu lle mae angen darparu gwasanaeth amserol;
- Gallai dull gweithredu o gael canolfannau cyswllt i gynnal yr asesiadau weithio, ond ni ddylai'r canolfannau hyn fod wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i un sefydliad;
- Nid oes canolfannau asesu ymhob prifysgol;
- Dylai fod gan y sefydliad addysg ble mae'r myfyriwr yn penderfynu astudio beth cyfrifoldeb wrth drefnu Lwfans i Fyfywr Anabl. Fodd bynnag, dylid cael peth cydweithrediad rhwng pobl sy'n gweithio gyda'r myfyriwr boed yn weithiwr cymorth, meddyg teulu, rhieni/gofalwyr – dylent i gyd fod yn helpu i wneud y penderfyniadau cywir a phenderfynu faint ddylai'r myfyriwr ei dderbyn yn unol â'i anghenion;
- Os caiff y pot arian ei ddyrannu'n uniongyrchol i SAU, RHAID iddo gael ei glustnodi ar gyfer cymorth anabledd;
- Dylid cael archwiliad ansawdd o'r cymorth hwn sy'n cynnwys cyrff proffesiynol y gwahanol grwpiau defnyddwyr, e.e. ADSHE, NAS ac ati. Byddai'n llawer gwell neilltuo'r fiwrocratiaeth a'r arian sy'n cael ei gwario i weinyddu'r Lwfansau i Fyfywr Anabl a darparu'r cymorth i fyfyrwyr;
- Mae angen gwasanaeth eirioli annibynnol sy'n hawdd mynd ato ar gyfer myfywr sy'n teimlo nad ydynt yn derbyn yr hyn sydd ei angen arnynt;
- Fel oedolyn awtistig, byddwn yn cael trafferth defnyddio'r help nad yw'n help meddygol pe bai'n cael ei ddarparu gan y brifysgol. Mae gen i ofalwr anfeddygol a chyfeillion teithio rydw i'n eu defnyddio'n barod ac yn ymddiried yn llwyr ynddynt. Pe bai disgwyl i mi beidio â defnyddio'r sawl sy'n fy helpu i mewn ffordd anfeddygol a derbyn cymorth gan aelod o staff y brifysgol nad ydw i'n ei adnabod yn lle hynny, byddai hynny'n fy rhwystro rhag parhau i astudio;
- Os yw'r Darparwr Addysg Uwch yn gyfrifol am drefnu cymorth sy'n cael ei ariannu gan y Lwfans i Fyfywr Anabl yna bydd hyn yn lleihau cystadleuaeth a gallai arwain at wasanaethau salach.

### **Pwyntiau eraill a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:**

- Mae Colegau Cymru yn datgan bod Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru eisoes yn sefydlu ac yn caffael y cymorth angenrheidiol ar gyfer dysgwyr Addysg Bellach. Mae hyn yn eu galluogi i gynnal gwasanaeth effeithlon ac effeithiol a all newid dros gyfnod cwrs y dysgwr, yn ôl yr angen. Mae ymestyn gwasanaeth tebyg i gynnwys myfywrwyr Addysg Uwch yn gwbl bosibl ac yn sicrhau dull o ddiwallu anghenion cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Roedd UCM o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru geisio sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd sy'n gwarantu lefel briodol o atebolrwydd yn y system ac sy'n nodi corff addas i gynnal archwiliadau;

- Dylid cymryd gofal i sicrhau bod Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl ar gael i gefnogi'r myfyriwr unigol ac i beidio â disodli'r angen am wasanaethau anwahaniaethol sy'n ofynnol gan y gyfraith;
- Awgrymu sefydlu grŵp adolygu Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl i fonitro ac adolygu diwygiadau wrth iddynt gael eu cyflwyno, gyda mwy o gynrychiolaeth gan grwpiau myfyrrwyr;
- Byddai angen proses glir ar fyfyrrwyr i fynegi pryderon gyda CMC ynghylch penderfyniadau;
- Mae cymhlethdodau ynghlwm wrth y cynnig y gall myfyriwr ddilyn proses gwyno'r Darparwyr Addysg Uwch. Ar hyn o bryd, gall ymgeiswyr wneud cais am Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, ond ni fyddai ymgeisydd yn cael ei gynnwys ym mhroses cwynion myfyrrwyr, fodd bynnag, gan nad yw'n fyfyriwr cofrestredig ac ni all ymgeiswyr gyflwyno achos i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA);
- Dylid ystyried rhwydwaith o ganolfannau asesu wedi'u lleoli o fewn Darparwyr Addysg Uwch, a allai gyfathrebu gyda'i gilydd i sicrhau bod argymhellion yn cael eu teilwra i'r brifysgol dan sylw;
- Dylai myfyrrwyr fod yn fwy ymwybodol nag y maent ar hyn o bryd bod modd iddynt ddewis eu darparwr eu hunain. Byddai hyn yn gwella'r gwasanaeth yn sylweddol oherwydd mwy o gystadleuaeth, a fyddai'n codi safonau, ac ystod fwy eang o ddarpariaeth gwasanaethau i gefnogi ystod eang o amgylchiadau. Byddai'r model arfaethedig mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol â'r cynnydd hwn;
- Rheoli'n effeithiol y gwrthdaro buddiannau rhwng y rhai sy'n cynnal yr asesiad a'r rhai sy'n darparu'r cymorth.

**Cwestiwn 4 – A fyddai gwella ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl, yn enwedig mewn ysgolion ac yn y proffesiwn meddygol, yn cynyddu nifer y bobl sy'n eu derbyn?**

Byddai	96	89.72%
Na fyddai	1	0.94%
Ddim yn Siŵr	7	6.54%
Gadawyd yn wag	3	2.80%
Cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd	107	

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr a gyflwynodd ymateb i gwestiwn 4 yn cytuno y byddai gwella ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yn cynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio.

Mae'r canlynol yn rhestr o bwyntiau cadarnhaol ac awgrymiadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 4, :

- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai gweithio gyda meddygon yn gwella dealltwriaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl ac yn gwneud darparu tystiolaeth feddygol angenrheidiol yn broses haws a llai costus i'r myfyriwr;
- Gellid ceisio sefydlu model cymorth 'pasbort' ar gyfer myfyrrwyr ag anableddau hirdymor sy'n galluogi dilyniant wrth iddynt symud trwy'r system;
- Sefydlu polisi i ganiatáu cyfres glir o lwybrau teithio i fyfyrrwyr anabl, gyda'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl fel y gydran lefel addysg uwch;
- Creu cofrestru awtomatig i'r broses Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ar gyfer y rheini ag anghenion hirdymor sydd wedi'u profi;

- Dylai ymgysylltiad Darparwyr Addysg Uwch ac ehangu timau mynediad arwain at ymwybyddiaeth greiddiol o'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl wrth iddynt ymgysylltu ag ysgolion partner;
- Dylid sefydlu gweithgor parhaol gyda rhanddeiliaid o blith Darparwyr Addysg Uwch, Addysg Uwch, Addysg Bellach, dysgu o bell a dysgu yn y gymuned, a myfyrrwyr eu hunain er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau;
- Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i fyfyrrwyr aeddfed wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl;
- Mae'n ymddangos bod gwrthdaro rhwng yr iaith a ddefnyddir mewn ysgolion a cholegau a'r iaith a ddefnyddir gan brifysgolion, UCAS a chyrrff cyllido;
- Gan ddefnyddio ffurflenni UCAS i roi eglurder, mae gan staff UCAS sy'n cynghori myfyrrwyr ynghylch gwneud cais i brifysgol rôl hanfodol wrth gael gwared ar unrhyw stigma ynghylch anabledd a hyrwyddo ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl;
- Mynegodd UCM Cymru y pwynt mai dim ond hanner y broblem yw'r ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl, a bod y cyfyngiadau amser ychwanegol a roddir ar bobl anabl o ran gwneud cais am gymorth hefyd wedi cael eu nodi fel rhwystr;
- Awgrymodd UCM Cymru y dylai'r system Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl symud tuag at fodel cymdeithasol o anabledd, lle nad oedd yn ofynnol i'r myfyriwr brofi tystiolaeth feddygol ond yn hytrach dystiolaeth y bydd yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at Addysg Uwch;
- Dylai ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl gael ei chyflwyno i bob disgybl gyda'i gilydd er mwyn codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol;
- Byddai gwella ymwybyddiaeth o anableddau cudd mewn ysgolion ac yn y proffesiwn meddygol nid yn unig yn cynyddu nifer y bobl sy'n hawlio Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl ond hefyd arbenigedd ac adnabyddiaeth ohonynt;
- O ystyried y newidiadau sylweddol i'r trefniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer disgyblion 0-25 oed, mae Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol a chyfathrebu gyda chydlynwyr ADY mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach dros y 18 mis nesaf – ac y gallai cydlynwyr ADY fod â rôl allweddol;
- Creu canllaw sy'n cynghori ynghylch y dystiolaeth feddygol ofynnol i fyfyriwr ei dangos i feddygon teulu wrth geisio llythyrau;
- Yn ddelfrydol, byddai ymgyrch benodol wedi'i thargedu at ysgolion a meddygon teulu yn fuddiol iawn;
- Mwy o gymorth gan CMC pan na chytunir ar dystiolaeth feddygol;
- Ystyried cyflogi personél i gyfarfod yn uniongyrchol ag ysgolion a meddygon i sicrhau cynnydd mewn ymwybyddiaeth;
- Ymgyrch ymwybyddiaeth sy'n defnyddio profiadau a lleisiau myfyrrwyr i sôn am sut mae cymorth yn ddefnyddiol;
- Creu rhaglen ryngweithiol lle mae'r myfyriwr yn mewnbynnu ei anabledd, a'i fod wedyn yn derbyn gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â'r cymorth penodol sydd ar gael i'r math hwnnw o anabledd neu nam;
- Gwella'r ddealltwriaeth o gymhwysedd gan nad yw myfyrrwyr yn nodi eu bod yn anabl;
- Mae' angen eglurhad manwl bob amser ar y term 'asesiad anghenion', yn enwedig i fyfyrrwyr anabl sydd wedi cael profiadau negyddol gyda'r term 'asesiad';
- Mae codi ymwybyddiaeth o anableddau ac addysgu cynhwysol yn ffordd well o sicrhau nad yw myfyrrwyr anabl yn wynebu'r un rhwystrau ac felly ddim ANGEN unrhyw gymorth ychwanegol, wedi'i ariannu'n unigol;
- Ymddengys fod llawer o ysgolion yn cael sgysiau gan CMC ynghylch arian. Byddai'n ddefnyddiol pe bai sôn am y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn y sgysiau hyn, Hefyd, gallai CMC/canolfannau asesu edrych ar wahanol ffyrdd o hysbysebu i gynyddu'r nifer sy'n

gwneud cais am y lwfans. Byddai defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd dda o hysbysebu'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl gan fod mwyafrif y myfyrrwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

### **Pwyntiau eraill a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:**

- Cynnig cyfle i dderbyn ad-daliad am unrhyw dystiolaeth feddygol dderbyniol a dderbynnir gan CMC os yw'r myfyriwr wedi cael gafael ar y dystiolaeth at ddiben gwneud cais am Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl;
- Mae angen i Lywodraeth Cymru adolygu eu rhagdybiaeth mai meddygon sydd yn y sefyllfa orau i gadarnhau sut mae cyflyrau yn effeithio arnom ni [myfyrrwyr];
- Ystyried y rhai sydd â diagnosis gydol oes a darparu 'tystiolaeth';
- Ystyried pobl sydd eisoes yn cael eu hystyried yn anabl gan y DWP (asiantaeth y llywodraeth sy'n gosod rheolau tynn iawn ar bwy sy'n cael ei ystyried yn rhywun sydd ag anabledd) ond sy'n methu cael cymorth anabledd wrth wneud cais am gyllid myfyrrwyr oherwydd diffyg dystiolaeth;
- Mae'r rhwystrau y mae myfyrrwyr yn dod ar eu traws oherwydd y diffyg gwybodaeth sydd ar gael iddynt yn debygol o'u rhwystro. Mae'n bwysig fod y broses o wneud cais mor dryloyw a syml â phosibl, er mwyn sicrhau bod myfyrrwyr sydd ag anableddau yn gallu cael mynediad at gymorth;
- Mae'r diffyg gwybodaeth ynghylch y broses o wneud cais a sut i drefnu derbyn eu hargymhellion yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r myfyriwr i dderbyn y cymorth y mae'n gymwys i'w dderbyn.

### **Y Gymraeg**

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn pumed cwestiwn i geisio barn ymatebwyr am unrhyw effeithiau posibl y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 47 o ymatebwyr, a dangosir y sylwadau isod:

- Rhaid i unrhyw fframwaith sicrhau ansawdd a ddatblygir gynnwys Safonau'r Iaith Gymraeg yn y cytundeb lefel gwasanaeth;
- Dylai pob asesiad diagnostig fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Dylai fod yn ofynnol i ganolfannau asesu sicrhau na chaiff myfyriwr anabl sy'n siarad Cymraeg ei drin yn llai ffafriol o ran ei becyn cymorth, ac os yw hynny'n digwydd, rhaid nodi'r rheswm, er enghraifft, nid yw meddalwedd mewnbynnu ar lafar ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Gallai iaith heblaw Saesneg fod yn anfanteisiol o ran ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl a chyfathrebu;
- Rhaid sicrhau bod digon o aseswyr sy'n siarad Cymraeg i wneud yn siŵr nad yw amseroedd aros yn sylweddol hirach nag ar gyfer myfyrrwyr Saesneg eu hiaith;
- Yn ogystal, materion yn ymwneud â diffyg technolegau cynorthwyol trwy gyfrwng y Gymraeg, fel meddalwedd darllen sgrin, a fydd yn cael effaith ar fyfyrrwyr sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt;
- Mewn rhai achosion, hwyrach na fydd yn bosibl rhoi cymorth o'r un ansawdd i fyfyrrwyr Cymraeg eu hiaith ag i fyfyrrwyr Saesneg eu hiaith, er enghraifft, lle mae meddalwedd ar gael yn Saesneg yn unig. Yn yr achosion hyn, dylid rhoi cymorth ychwanegol i fyfyrrwyr i wneud iawn am yr anfantais;
- Braille Cymraeg: mae adnoddau yn y fformat hwn yn llawer prinnach ac mae gweithwyr cymorth braille Cymraeg yn brin iawn. Bydd angen cynllunio a darparu ar gyfer unigolion gyda sgiliau braille Cymraeg ymhell cyn dechrau'r cyrsiau;

- Dylid gwerthuso'r ddarpariaeth asesiad o anghenion astudio trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn penderfynu a oes problemau rhanbarthol/galw nas diwallwyd;
- Dylid nodi dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf a'i rannu rhwng unrhyw asiantaethau neu sefydliadau sy'n rhan o'r broses heb fod angen i'r defnyddiwr gwasanaethau orfod ailadrodd ei ddewis ieithyddol;
- Rhai heriau o ran sicrhau bod adroddiadau sgrinio ac anghenion cymorth yn cael eu cyfieithu'n brydlon ac yn gywir ar gyfer defnydd ehangach poblogaeth y brifysgol nad ydynt o bosibl yn siarad Cymraeg;
- Ddim yn credu y byddai unrhyw effeithiau niweidiol/anffafriol yn deillio o'r newidiadau arfaethedig;
- Mae cyfle i gefnogi'r Gymraeg trwy ddefnyddio marchnad gystadleuol a gweld sut mae datblygwyr meddalwedd yn ymateb er mwyn sicrhau parhad busnes Lwfansau i Fyfirwyr Anabl;
- Os bydd asesiadau a darpariaeth cymorth anfeddygol yn cael eu symud i ofal Darparwr Addysg Uwch yn unig, ni fydd unrhyw ddefnyddiwr Cymraeg sy'n bwriadu astudio y tu allan i Gymru yn cael cyfle i fanteisio ar wasanaethau Cymraeg mewn canolfan asesu annibynnol yng Nghymru;
- Dylai Ymgynghorwyr Anabledd Cymraeg eu hiaith fod ar gael i gynnal sgriniadau;
- Annhebygol o gael effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd bod gan Ddarparwyr Addysg Uwch ddyletswyddau o dan Safonau'r Iaith Gymraeg;
- Ddim yn credu y bydd y cynigion yn effeithio ar y Gymraeg.

Yn olaf, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr roi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â Lwfansau i Fyfirwyr Anabl. Cyflwynwyd ymateb gan 42 ymatebydd, a dangosir y sylwadau isod:

- Cynghori diwygio'r gweithgor Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, ond gyda mwy o gynrychiolaeth gan fyfirwyr;
- Mae'r system Lwfansau i Fyfirwyr Anabl bresennol yn feichus yn weinyddol, yn rhy ddud ac yn anaddas ar ei ffurf bresennol;
- Er bod angen ailwampio sylfaenol, rydym yn cydnabod nad yw hyn yn bosibl heb gydweddu rhwng darpariaeth Cyllid Myfirwyr Lloegr a CMC;
- Mae pryderon wedi'u mynegi ynghylch y gwahaniaethau o ran cymorth rhwng Addysg Bellach a Darparwyr Addysg Uwch. Byddem yn croesawu ymgynghoriad ar y cymorth a gynigir i fyfirwyr anabl mewn Addysg Bellach gan ein bod o'r farn y gallai llawer o fyfirwyr gael eu hatal rhag symud ymlaen i Addysg Uwch oherwydd nad yw'r cymorth ar gyfer Addysg Bellach yn ddigonol;
- Dylai'r cymorth fod yn seiliedig ar y model cymdeithasol o anabledd a dylai darparwyr sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r asesiad a darparu cymorth wedi'u hyfforddi i'w ddeall;
- Dylid integreiddio hygyrchedd yng ngwaith bob dydd Darparwyr Addysg Uwch;
- Mae cyfle gwych yma i Gymru arwain y ffordd o ran gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cymorth;
- Creu system adnabod myfyriwr unigryw i gael gafael ar wasanaethau a meddalwedd ar unrhyw ddyfais, ynghlwm wrth systemau prifysgolion a'r system ysgolion, ond yn cael ei weithredu gan Gymru'n ganolog i sicrhau preifatrwydd a chysondeb;
- Mae hyfforddiant technoleg gynorthwyol yn hanfodol os am gynyddu'r nifer sy'n derbyn, defnyddio a manteisio ar dechnoleg gynorthwyol, gyda'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddarparu trwy'r Lwfans i Fyfirwyr Anabl. Rydym yn cynnig y dylid



gwneud popeth posibl i sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn o leiaf un sesiwn hyfforddi technoleg gynorthwyol;

- Gan fod y canllawiau ar gyfer Lwfansau i Fyfywrwr Anabl yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, byddai mwy o eglurder ynghylch yr hyn sy'n cael ei ganiatáu ai peidio o fudd i bawb;
- Credwn y gellid gwella'r baich gweinyddol a'r oedi i broses asesu'r Lwfansau i Fyfywrwr Anabl pe bai'r Darparwrwr Addysg Uwch yn cael gwybod bod y myfywrwr wedi gwneud cais a statws y cais hwnnw;
- Bydd materion trawsffiniol yn dod yn fwy arwyddocaol wrth i bolisi Lwfansau i Fyfywrwr Anabl ymwahanu, yn enwedig rhwng Cymru a Lloegr, ein pryder yw sicrhau bod myfywrwr yn cael profiad o ansawdd cyson;
- Rydym yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o lywio'r gwaith o ddatblygu arferion dysgu ac addysgu mwy cynhwysol gan Ddarparwrwr Addysg Uwch Cymru;
- Mae'r Swyddfa Myfywrwr yn Lloegr wedi gosod targed i leihau bwlch cyrhaeddiad myfywrwr anabl, gan gydnabod bod y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad yn fwy arwyddocaol o'i ddadansoddi yn ôl nam penodol. Mae'r gyrrwr hyn yn helpu i greu newid o fewn Darparwrwr Addysg Uwch a byddem yn croesawu gyrrwr tebyg ar gyfer Darparwrwr Addysg Uwch Cymru;
- Nid yw nam ar y golwg yn anabledd digyfnewid ac mae golwg ac anghenion llawer o bobl ifanc yn newid dros amser, a gall y newid fod yn sylweddol. Felly, mae angen sicrhau bod hyblygrwydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y ddarpariaeth;
- Sicrhau bod y broses yn hygyrch i fyfywrwr sydd ag anawsterau cyfathrebu. Ar ôl cael dyfarniad o Lwfans i Fyfywrwr Anabl, caiff mesurau eu rhoi ar waith i oresgyn y rhain ond mae angen iddynt [myfywrwr] allu ymdopi â'r broses honno'n gyntaf a does gan bob myfyriwr ddim rhiant wrth law sy'n fodlon helpu;
- Mae yna bethau nad ydynt yn dod o dan y lwfans, fel llyfrau. Rydw i'n anabl ac ni allaf deithio i lyfrgelloedd ond nid yw'n bosibl cael cyllid ychwanegol ar gyfer llyfrau – er nad oedd hyn yn peri anfantais i mi nid oes hanner cymaint o lyfrau yn y llyfrgell ar-lein â'r hyn sydd ar gael mewn llyfrgell ffisegol. Nid oeddwn ychwaith yn gallu defnyddio llyfrau sain;
- Ystyriwch yr effeithiau negyddol ar iechyd meddwl pobl anabl o orfod profi eu hanabledd yn barhaus i'r llywodraeth, pan maent yn anabl ac yn derbyn budd-daliadau'n ymwneud ag anableddau;
- Rhaid i ddarparwrwr allanol cymorth i fyfywrwr anabl gyrraedd y safonau proffesiynol a gweinyddol uchaf posibl. Mae'r rhain yn ddarparwrwr o'r radd flaenaf a allai gael eu gorfodi i gau eu busnes oherwydd yr argymhellion hyn. Byddai hyn yn gadael bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth, a byddai rhai myfywrwr arbennig o agored i niwed yn cwympo drwy'r rhwyd;
- Mae'r system yn aml yn methu oherwydd eich bod yn siarad gyda rhywun mewn canolfan alwadau gyffredinol yn hytrach na rhywun yn Cyllid Myfywrwr Cymru;
- Gall y broses o wneud cais fod yn ddigon i atal y rhai â'r angen mwyaf am gymorth. Dylai cymorth fod ar gael i helpu gyda'r broses hon;
- Efallai ein bod ni [myfywrwr] angen cymorth ychwanegol, ond nid yw ein hanableddau'n ein diffinio, ac mae gennym y gallu i wneud pethau anhygoel gyda'r cymorth CYWIR.

## **Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr**

Access for Students  
Addysg Oedolion Cymru  
Beacon Services  
Beacon Support  
Canolfan Asesu Abertawe  
Canolfan Asesu Caerdydd  
Canolfan Asesu Casnewydd  
Canolfan Mynediad Bangor/Prifysgol Aberystwyth  
Claro Software Ltd  
Coleg Sir Benfro  
Colegau Cymru  
Creuynni Complementary Healthcare  
Cyngor Cymru i'r Deillion  
Cymdeithas Darparwyr Cymorth Anfeddygol (ANMHPs)  
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru  
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar  
Cymdeithas Genedlaethol Ymarferwyr Anabledd (NADP)  
Cymdeithas Technoleg Gynorthwyol Prydain (BATA)  
Dr Chadwell Asesydd Anghenion Anabledd  
Fforwm Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl Gogledd a De Cymru  
Gwasanaethau Cymorth Synhwyrdd Gogledd Ddwyrain Cymru  
Gwasanaethau Myfyrrwyr Prifysgol Abertawe  
K Robson Ymgynghorydd Addysg Uwch Annibynnol  
L Stevens Asesydd Diagnostig  
M Philips Asesydd Anghenion  
Mattersey Hall  
National Network of Assessment Centres  
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf Grŵp Blaenau Gwent  
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf Grŵp Taf-Elái  
Prifysgol Aberystwyth  
Prifysgol Agored Cymru (OU Cymru)  
Prifysgol Bangor  
Prifysgol Caerdydd  
Prifysgol Caerfaddon  
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Campws Llanbedr Pont Steffan)  
Prifysgol De Cymru  
Prifysgol Heriot-Watt, Caeredin  
Prifysgol Leeds  
Prifysgol Manceinion  
Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Prifysgol Wrecsam  
Prosiect Engage to Change dan arweiniad Anabledd Dysgu Cymru  
R Miller Rheolwr Gwasanaethau Anabledd a Chynhwysiant  
R Vobe Asesydd Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl  
Royal Central School of Speech and Drama  
SNAP Cymru  
Spectrum First  
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)  
Undeb Cenedlaethol Myfyrrwyr Cymru (UCM Cymru)  
University College London, Llundain

Cafwyd ymatebion hefyd gan nifer o fyfyrwyr, a rhieni myfyrwyr, ac ni chyhoeddir enwau unigol y rhain.

### **Atodiad B – Rhestr o acronymau**

AAA Anghenion Addysgol Arbennig  
ADY Anghenion Dysgu Ychwanegol  
OIA Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol  
CMC Cyllid Myfyrwyr Cymru  
SAU Sefydliadau Addysg Uwch  
UCAS Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau  
UCM Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr